**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**5 RHAGFYR 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 5 Rhagfyr 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, Ian Dunbar, Carol Ellis, David Evans, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Adele Davies-Cooke, Veronica Gay, a Dave Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Uwch Gynllunydd; Cynllunwyr; Uwch Gyfreithiwr, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd, a Swyddog Pwyllgor.

Dywedodd yr Uwch Gyfreithiwr ei fod wedi derbyn hysbysiad fod y Cynghorydd Aaron Shotton yn dymuno siarad ar eitem 6.1 (058544) yn y rhaglen a'r Cynghorydd Dennis Hutchinson yn dymuno siarad ar eitem 6.3 (058516).

## 38. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Patrick Heesom gysylltiad personol a sy'n rhagfarnu yn eitem rhif 6.5 yn y rhaglen - Cais Llawn - Newid Defnydd o Dir i Safle Carafan Deithiol/Pabell yn Old Tavern, Llanerch-y-Môr, Treffynnon. Dywedodd y Cynghorydd Heesom y byddai'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais ar y cais.

Datganodd y Cynghorydd Owen Thomas gysylltiad personol yn eitem 6.6. yn y rhaglen - Amrywiad o Amod 3 Cysylltiedig â Chaniatâd Cynllunio Cyfeirnod: 045739 yn Chwarel Hendre, Ffordd Dinbych, Hendre, gan ei fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyswllt.

Datganodd y Cynghorydd Mike Peers gysylltiad personol a sy'n rhagfarnu yn eitem rhif 6.1 yn y rhaglen – Cais Llawn – Datblygiad Preswyl, Codi 30 o Fflatiau Fforddiadwy Ar Gyfer Pobl Dros 55 Oed Gyda Mynediad Cysylltiedig, Parcio a Dymchwel hen Westy'r Albion yng Nghlwb Cymdeithasol yr Albion, Pen y Llan, Cei Connah, gan fod aelod o'r teulu'n cael ei gyflogi gan un o'r cyd ymgeiswyr. Dywedodd y Cynghorydd Peers y byddai'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth ac na fyddai'n pleidleisio ar yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd Derek Butler gysylltiad personol yn eitem 6.2 yn y rhaglen – Cais Amlinellol i Godi Annedd Fforddiadwy yn Bayonne Ffordd Hafod, Gwernaffield, gan ei fod yn aelod o Fwrdd yr AHNE.

**39. SYLWADAU HWYR**

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4366&Ver=4&LLL=1

**40. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2018.

Cywirdeb

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at ei ddatganiad o gysylltiad ar eitem 6.5 yn y rhaglen a gofynnodd am i'r cofnodion gael eu diwygio i gynnwys y rheswm am ei ddatganiad. Y cysylltiad oedd am ei fod yn Llywodraethwr Ysgol Heol y Mynydd ac er y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar nifer y lleoedd i ddisgyblion yn yr ysgol honno ni all yr Awdurdod Cynllunio Lleol ofyn am gyfraniad ariannol ar gyfer yr ysgol i fynd i'r afael â'r effaith.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

**41. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Nid oedd unrhyw eitemau i'w gohirio.

**42. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau a gyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio oedd ynghlwm fel atodiad.

**43. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 16 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ac nid oedd neb o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 3.10 pm)

..................................................

**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 5 RHAGFYR 2018**

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 058544 | Cyngor Tref Cei Connah | Cais Llawn – Datblygiad Preswyl, Codi 30 o Fflatiau Fforddiadwy ar gyfer Pobl Dros 55 Oed gyda Mynediad Cysylltiedig, Parcio a Dymchwel Hen Westy'r Albion yng Nghlwb Cymdeithasol yr Albion, Pen y Llan, Cei Connah. | Siaradodd Ms K Evans yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr B Thornley, yr asiant o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Aaron Shotton yn erbyn y cais fel Aelod Lleol. | **GOHIRIWYD** i gael safbwyntiau Comisiwn Dylunio Cymru a CADW mewn perthynas â'r cynllun a'r effaith ar yr adeiladau rhestredig. Hefyd er mwyn gofyn i'r ymgeisydd ddarparu mwy o fanylion mewn perthynas â'r defnydd a wneir o ofodau parcio ceir mewn cynlluniau tebyg sydd ganddynt a sy'n bodoli'n barod. |
| 058124 | Cyngor Cymuned Gwernaffield | Cais Amlinellol i Godi Annedd Fforddiadwy yn Bayonne, Ffordd Hafod, Gwernaffield. | Pleidleisiodd y Cynghorydd P. Heesom yn erbyn y penderfyniad. | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn mynd i Gytundeb A106 fel y nodir yn yr adroddiad ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 058516 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn – Trawsnewid Capel Nad Yw'n Cael Ei Ddefnyddio Mwyach yn 2 Annedd a Chodi 1 Annedd Ar Wahân yn Nhŷ'r Offeiriad Catholig, Ffordd Brunswick, Bwcle. | Siaradodd Mrs. Price yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr. D. Owen, yr asiant, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Gwrthod yn erbyn argymhelliad y swyddogion ar y sail fod y cynigion yn groes i bolisïau AC13, AC18 a GEN1 |
| 058881 | Cyngor Cymuned Treuddyn | Cais i Gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl yn Dilyn | Siaradodd Ms. L. Murtagh, yn erbyn y cais | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | Caniatâd Cynllunio Amlinellol Cyfeirnod: 057943 yn Acrefield, Erw Ffynnon, Stryd y Frenhines, Treuddyn | Siaradodd Mr. B. Thornton, yr ymgeisydd o blaid y cais. | unol ag argymhelliad y swyddog, a gyda'r amodau ychwanegol canlynol:-<br>• cyn dechrau cynllun rheoli adeiladu i'w gyflwyno; ac<br>• amod yn ymwneud â thriniaethau ffin newydd i'w cyflwyno a'u cytuno a'u cadw wedi hynny. Os yw'r ffens wedi ei difrodi neu un arall wedi ei gosod yn ei lle, dylai'r ffens honno fod o'r un math, deunyddiau ac uchder. |
| 058359 | Cyngor Cymuned Mostyn | Cais Llawn - Newid Defnydd o Dir i Safle Carafanau Teithiol/Pebyll, yn yr Old Tavern, Llanerch-y-Môr, Treffynnon. | Siaradodd Mr S. Andrew, yr ymgeisydd, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 058984 | Cyngor Cymuned Cilcain<br>Cyngor Cymuned Helygain | Amrywio Amod Rhif 3 sy'n Gysylltiedig â Chaniatâd Cynllunio Cyf: 045739 i Ymestyn Oes y Caniatâd Cynllunio o 2020 i 2030. | | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn mynd i Gytundeb Adran 106 atodol ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| **APELIADAU** | | **NODWYD** | | |
| 056267 | | Safle Storio i gefn Cyfleuster Modur presennol yn | | |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | Arwerthiant Modur Queensferry, Ffordd yr Orsaf, Queensferry – GWRTHODWYD. | | |